S4C /

# Bwrdd S4C

Cyfarfod 483
09:30, 19 Mawrth 2026
Swyddfa S4C, Caernarfon

## CRYNODEB O GOFNODION

Aelodau oedd yn bresennol:

- Delyth Evans [DE], Cadeirydd y Bwrdd
- Dyfrig Davies [DD], Aelod Anweithredol
- Suzy Davies [SuD], Aelod Anweithredol – tan eitem 9
- Wyn Innes [WI], Aelod Anweithredol
- Llion Iwan [Lll], Prif Swyddog Cynnwys
- Gwenllian Lansdown Davies [GLD], Aelod Anweithredol – ag eithrio eitemau 5.7 tan 8.3
- Elin Morris [EM], Prif Swyddog Gweithredu
- Betsan Powys [BP], Aelod Anweithredol
- Catryn Ramasut [CR], Aelod Anweithredol – tan eitem 12

Eraill oedd yn bresennol:

- Llinos Priestland [LlP], Swyddog Gweithredol i Ysgrifennydd y Bwrdd
- Geraint Pugh [GP], Ysgrifennydd y Bwrdd
- Mali Williams [MW], Pennaeth Materion Cyhoeddus (ar gyfer eitemau 3 ac 8)
- Sharen Griffith [SG], Comisiynydd Newyddion a Materion Cyfoes (ar gyfer eitem 4) – yn rhithiol
- Nadine Beaton [NB], Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant (ar gyfer eitem 5)
- Dr Ioan Rees [IR], Sycol (ar gyfer eitem 5)
- Catrin Masling [CM], Partner Busnes Pobl a Diwylliant (ar gyfer eitem 5)
- Helen Stevens [HS], Partner Busnes Pobl a Diwylliant (dros dro) (ar gyfer eitem 5]
- Sharon Winogorski [ShW], Prif Swyddog Cyllid (ar gyfer eitemau 7 ac 8) – yn rhithiol
- Llyr Morus [LlM], TAC (ar gyfer eitem 9)
- Sioned Harries [SH], TAC (ar gyfer eitem 9)
- Sioned Haf Roberts [SR], TAC (ar gyfer eitem 9)

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:

- Geraint Evans [GE], Prif Weithredwr
- Denise Lewis Poulton [DLP], Aelod Anweithredol

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Datganiadau diddordebau ac ymddiheuriadau**<br><br>Croesawyd pawb i'r cyfarfod.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb.<br><br>Tynnwyd sylw pawb at God Diwylliant S4C ar ddechrau'r cyfarfod. | |
| 2. | **Diweddariad y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, ac Aelodau eraill y Bwrdd**<br><br>Roedd GE yn absennol o'r gwaith am gyfnod, gyda threfniadau anffurfiol i EM ddirprwy yn ei absenoldeb. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr adroddiad yn nodi'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, gan amlygu ymweliadau llwyddiannus iawn Lisa Nandy ac Ian Murray i Sgwâr Canolog i gwrdd â hi a GE. Roedd y ddau'n gefnogol i'r gwaith ac yn dangos dealltwriaeth o flaenoriaethau a chyfeiriad S4C.<br><br>Gwahoddwyd GP yn absenoldeb y Prif Weithredwr i ddiweddaru'r Bwrdd ar wahanol faterion nad oeddent yn ymddangos ym mhapurau'r cyfarfod:<br><br><u>Adolygu Siarter y BBC</u><br><br>Roedd y DCMS wedi danfon cais penodol i S4C am wybodaeth ar y bartneriaeth gyda'r BBC, er mwyn cyfrannu at adolygiad Llywodraeth y DU o Siarter y BBC.<br><br><u>YouTube</u><br><br>Nodwyd bod YouTube yn blatfform strategol allweddol i gynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Yn dilyn ymgysylltu parhaus â YouTube, Ofcom a DCMS, mae cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud o ran sefydlu perthynas fwy ffurfiol gyda YouTube.<br><br>Cadarnhawyd bod YouTube bellach yn adolygu ei bortffolio o bartneriaid busnes, gyda'r bwriad o gynnwys S4C fel partner ffurfiol yn ystod mis Mai neu Fehefin. Byddai hyn yn galluogi ymgysylltu rheolaidd â YouTube ac yn sail bwysig ar gyfer gwella darganfyddadwyedd a pherfformiad cynnwys S4C ar y platfform. Cydnabuwyd bod y cynnydd hyd yma wedi'i sbarduno gan arweiniad a gwaith dylanwadu effeithiol Geraint Evans ar draws nifer o fforymau polisi a rheoleiddio.<br><br><u>Diwrnod Strategol y Bwrdd</u><br><br>Cynhelir Diwrnod Strategol y Bwrdd ar 23 Ebrill 2026. Esboniwyd bod y rhaglen yn cael ei datblygu ar hyn o bryd, ac fe wahoddwyd mewnbwn gan aelodau'r Bwrdd. Awgrymwyd cynnwys cyflwyniad cyffredinol ar AI – gan gynnwys ystyriaethau moesegol, corfforaethol a llywodraethiant – cyhyd â'i fody n berthnasol i sefyllfa S4C. Trafodwyd hefyd sut y gall y Bwrdd wella ei ddealltwriaeth o feddylfryd 'digidol yn gyntaf'.<br><br>**Penderfyniad: I gynnal sesiwn ysgafn ar ddeallusrwydd artiffisial yn ystod diwrnod strategol y Bwrdd ar 23 Ebrill 2026.** | |
| 3. | [ymunodd MW â'r cyfarfod]<br><br>**Yr Is-Strategaeth Gynnwys**<br><br>Wrth gyflwyno'r fersiwn diweddaraf o'r strategaeth gynnwys, diolchodd Ll am gefnogaeth MW gyda'r gwaith drafftio. Amlinellodd y prif heriau a'r cyfleoedd, ynghyd â sut mae'r strategaeth yn darparu ymateb iddynt. Nodwyd bod nifer fawr o gwmnïoedd yn dibynnu ar S4C am waith, ac y gallai unrhyw heriau ariannol i S4C gael effaith andwyol ar y sector.<br><br>Ar ôl i rai o aelodau'r Bwrdd ymweld â chwmnïau cynhyrchu, adroddwyd bod diffyg cydweithio hanesyddol oddi fewn y sector, ond bod gwaith ar yr strategaeth newydd wedi sbarduno trafodaethau mwy agored ac adeiladol. Tynnwyd sylw hefyd at un o brif wendidau'r broses gomisiynu, sef yr amser hir y gall fynd heibio cyn cyrraedd | |

| | | |
|---|---|---|
| | penderfyniad. Er nad yw S4C yn unigryw yn hynny o beth, fel sefydliad cymharol fach, mynegwyd y farn y dylai S4C allu darparu atebion yn fwy cyflym.<br><br>Yn dilyn trafodaeth adeiladol, mynegwyd y gobaith y bydd Ll a MW yn ystyried yr adborth ac yn diwygio'r strategaeth yn unol â'r angen. Ar yr amod bod y newidiadau hyn yn cael eu hymgorffori, nododd y Bwrdd ei fod yn barod i gymeradwyo'r Strategaeth Gynnwys.<br><br>Pwysleisiwyd, o hyn ymlaen, fod gweithredu effeithiol yn allweddol, gyda'r comisiynwyr yn deall eu rôl ganolog wrth yrru llwyddiant S4C yn unol â'r cyfeiriad strategol. Bydd y Pwyllgor Cynnwys yn cadw goruchwyliaeth ffurfiol ar y gwaith hwn.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r strategaeth, ar y ddealltwriaeth y bydd mân newidiadau i adlewyrchu adborth yr aelodau yn ystod y cyfarfod.**<br><br>**Penderfyniad: Bod cynllun gweithredu ar gyfer y strategaeth newydd yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Cynnwys.**<br><br>**Penderfyniad: Bod trefniadau perthnasol i rannu'r strategaeth newydd gyda'r tîm comisiynu a'r sector gynhyrchu.**<br><br>[gadawodd MW y cyfarfod] | |
| 4. | [ymunodd SG â'r cyfarfod]<br><br>**Cyflwyniad gan aelod o staff – Etholiadau Cymru 2026; Sharen Griffith, Comisiynydd Newyddion a Materion Cyfoes**<br><br>Croesawyd SG i'r cyfarfod, ac yna rhoddodd grynodeb o brif bwyntiau'r papur a gyflwynwyd ynghylch cynnwys S4C ar gyfer Etholiadau Cymru 2026, gan nodi y bydd y flwyddyn hon yn cynnwys cymysgedd o ddarpariaeth aml-blatfform.<br><br>Trafodwyd nifer o agweddau ar y ddarpariaeth, gan gynnwys y cwestiwn o sut i sicrhau bod gwasanaeth newyddion y BBC ar S4C yn wahanol i newyddion BBC Cymru yn y Saesneg.<br><br>Holwyd sut yr ydym yn sicrhau tegwch o ran sylw i'r pleidiau, a pha mor hawdd yw sicrhau trawstoriad teg o ran y gynulleidfa. Eglurwyd ein bod yn cadw data manwl er mwyn gallu ymateb i unrhyw gwestiynau neu heriau gan y pleidiau. Nodwyd hefyd fod rheolau pendant ar waith ar gyfer y cynulleidfaoedd.<br><br>Gofynnwyd a ydym yn monitro sylwadau ar lwyfannau lle mae modd i'r cyhoedd adael sylwadau. Cadarnhawyd ein bod yn gwneud hynny, ac yn asesu ar y pryd a oes angen tynnu sylwadau i lawr os ydynt yn croesi'r llinell. O safbwynt golygyddol, nid ydym yn cau sylwadau oni bai eu bod yn mynd i'r eithaf. Caiff pob sefyllfa ei hasesu fesul achos. Mewn achosion lle mae sylwadau eithafol yn ymddangos, mae'n rhaid ystyried iechyd a lles yr unigolyn sydd yng nghanol y stori.<br><br>[gadawodd SG y cyfarfod] | |
| 5. | [ymunodd IR, NB, CM a HS â'r cyfarfod]<br><br>**Cynnydd ar y Cod Diwylliant** | |

Croesawyd y tîm i'r cyfarfod a gwahoddwyd IR i gyflwyno ei hun i aelodau'r Bwrdd nad oeddent eisoes wedi ei gwrdd.

Amlinellodd IR y cyd-destun a arweiniodd at y gwaith hwn, gan egluro ei fod yn deillio o ddigwyddiadau yn 2023 a'r angen i gryfhau'r diwylliant yn fewnol. Teimlwyd yn gryf ar y pryd, ar y cyd â'r tîm, bod angen fframwaith clir, ac o ganlyniad penderfynwyd mabwysiadu fframwaith 'sefydliad sy'n dysgu'. Y bwriad oedd ail-fframio'r dull a chreu rhywbeth mwy cadarn a chynaliadwy, yn hytrach na cheisio trwsio'r hyn oedd yn bodoli eisoes. Y cam cyntaf oedd ail-lunio gwerthoedd S4C gyda chyfranogiad y staff. Mabwysiadwyd dull rheoli newid 'Build, Embed a Sustain', gan bwysleisio'r angen am waith sylfaenol er mwyn i staff gael ymdeimlad o berchnogaeth. O fewn y cyd-destun hwn, crëwyd S4C Campus fel cwricwlwm i gefnogi dysgu a datblygiad staff, ac fel modd o'u cynnwys wrth feithrin a deall y diwylliant newydd.

Cyflwynodd y tîm eu sleidiau gan nodi bod bron 80% o staff bellach wedi cwblhau Campus Lefel 1, a bod Lefel 2 ar fin ddechrau ar gyfer arweinwyr yn benodol.

Cyflwynodd NB sleidiau yn amlinellu canlyniadau'r arolwg staff diweddaraf, a gynhaliwyd fel rhan o arolwg y cylchgrawn Broadcast. Esboniwyd bod yr arolwg wedi deillio o adborth gan aelod o staff a oedd yn teimlo bod y newid diwylliant mor sylweddol fel y dylai S4C ymgeisio am wobr Broadcast. Er y cydnabuwyd ei bod yn gam cymharol gynnar, penderfynwyd bwrw ymlaen gan fod arolwg pwls wedi'i gynllunio beth bynnag, gan greu cyfle addas. Cynhaliwyd yr arolwg gan gwmni allanol, ac felly nid oedd gan S4C reolaeth dros amseriad y gwaith, a gynhaliwyd yn ystod wythnos hanner tymor yng Nghymru a cyn i'r rhan fwyaf o staff S4C ddechrau Campus 1. Er na chyrhaeddwyd y rhestr fer, nodwyd bod y data a gasglwyd yn parhau i fod yn werthfawr.

Tynnwyd sylw at y ffaith nad yw S4C, fel corff cyhoeddus, mewn sefyllfa i gynnig yr un mathau o fuddion â chwmnïau preifat. Ar yr un pryd, gan fod Llywodraeth Cymru a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus yn cynnig buddion penodol, mae gwerth ystyried beth sy'n cael ei gynnig yn ehangach ar draws y sector, gan y byddai hynny'n dderbyniol fel egwyddor gymharol.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod risgiau wedi'u crybwyll yn y sleidiau, a gofynnwyd a oedd y rhain wedi'u cynnwys ar y gofrestr risg. Cadarnhawyd bod risg yn ymwneud â diwylliant sefydliadol wedi'i chofnodi ar y gofrestr risg.

[gadawodd GLD y cyfarfod]

Datganwyd bod y model partneru busnes wedi gweithio'n hynod o dda wrth gryfhau'r berthynas rhwng adrannau a'r adran Pobl a Diwylliant. Mae'r dull yn galluogi gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd o ddydd i ddydd, yn darparu cyngor amserol, ac yn helpu i ddatrys materion cyn iddynt ddatblygu'n broblemau. O ganlyniad i gyfarfodydd DE gyda gwahanol dimau, mae nifer wedi cydnabod pa mor werthfawr a defnyddiol yw'r model hwn.

Gan fod S4C yn sefydliad cymharol fach, gall fod yn anodd i unigolion weld llwybrau datblygu gyrfa glir o fewn y sefydliad. O ganlyniad, mae angen canolbwyntio ar baratoi staff mewnol i fod mewn sefyllfa gref i wneud cais pan fydd cyfleoedd yn codi, boed hynny o fewn S4C neu gyda chyflogwyr eraill. Codwyd hefyd y cwestiwn ynghylch cyfleoedd secondiad, er enghraifft gyda'r BBC neu o fewn y sector ehangach. Er bod enghreifftiau o hyn eisoes yn digwydd, maent yn tueddu i ddigwydd mewn ffordd

| | | |
|---|---|---|
| | anffurfiol ac ar sail damwain neu achlysur, yn hytrach nag fel rhan o broses strwythuredig.<br><br>[gadawodd IR, NB, CM a HS y cyfarfod] | |
| 6. | [ymunodd ShW (yn rhithiol) â'r cyfarfod]<br><br>**Adroddiad ariannol chwarterol (Ch 3)**<br><br>Cyflwynodd ShW yr adroddiad ariannol ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2025, gan dynnu sylw'r aelodau at y prif newidiadau ers yr adroddiad ar gyfer y chwarter blaenorol.<br><br>Cadarnhawyd nad oedd S4C yn rhagweld unrhyw effaith o'r ansicrwydd economaidd presennol yn Chwarter 4. Er y disgwylir rhywfaint o chwyddiant, mae incwm S4C wedi'i glymu at y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Nodwyd hefyd fod cyllideb cynnwys dwy flynedd ar agor, a bod trafodaethau'n parhau ynghylch y pwysau costau hyd at bwynt cynhyrchu'r cynnwys.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd y trosglwyddiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad.** | |
| 7. | **Cyllideb 2026–27 (a'r cynllun ariannol pum mlynedd)**<br><br>Cyflwynodd ShW y gyllideb, oedd yn cynnwys rhagolygon ariannol hyd at 2027/28. Byddai'r rhagolygon hefyd yn cyfrannu at y cais cyllido i'r DCMS ar gyfer y cyfnod hyd at 2034, gan adlewyrchu'r pwysau ariannol a ragwelir ar gyfer 2027/28.<br><br>Mae pwysau cynyddol ar y gyllideb gynnwys. Bydd unrhyw arbedion neu effeithiolrwydd y gellir eu cyflawni yn ystod y flwyddyn nesaf yn cael eu hail-fuddsoddi mewn cynnwys y flwyddyn honno. Mae hyn yn sgil y pwysau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r strategaeth ddigidol, y cynnydd mewn costau eraill, a'r angen i ddiogelu'r gyllideb ar gyfer cynnwys.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd y gyllideb ar gyfer 2026–27, ac fe nodwyd y rhagolygon ar gyfer 2027–28.** | |
| 8. | **Cais ariannu 2028+**<br><br>Wrth gyflwyno ymateb drafft S4C i gais ariannu 2028+ gan DCMS, eglurodd GP fod angen mewnbwn strategol gan y Bwrdd cyn gallu symud ymlaen i'w gwblhau erbyn y dyddiad cau o 10 Ebrill 2026.<br><br>Nodwyd bod yr adran Gyllid wedi cyfrio sefyllfa S4C yn erbyn y tri senario ariannu a gyflwynwyd gan y DCMS, a bod yr UDA wedi ystyried yr ymateb priodol ym mhob achos.<br><br>[ail ymunodd GLD â'r cyfarfod]<br><br>Amlinellodd MW opsiynau ar gyfer gwasanaethau ychwanegol. Nodwyd bod DCMS wedi bod yn glir y dylai unrhyw gyllid ychwanegol gael ei gyfeirio tuag at wasanaethau newydd neu wasanaethau ychwanegol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfyniad: Bod y gwaith yn parhau i lunio'r cais ariannu i'r DCMS erbyn 10 Ebrill 2026, gan gymryd adborth y Bwrdd i ystyriaeth, gyda chopi o'r cais terfynol yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd mewn da bryd er mwyn caniatáu unrhyw adborth pellach.**<br><br>[gadawodd SuD y cyfarfod] | |
| 9. | [ymunodd LlM, SH ac SR â'r cyfarfod]<br><br>**Cyfarfod blynyddol i'r Bwrdd gyda chynrychiolwyr TAC**<br><br>Gwnaeth LlM cyflwyno aelodau'r tîm ac amlinellu pwrpas TAC er budd aelodau newydd y Bwrdd.<br><br>Nodwyd bod Cynhadledd *Dychmygu'r Dyfodol*, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2025 fel cydweithrediad rhwng S4C a TAC, wedi bod yn llwyddiant. Roedd cynlluniau ar waith i gynnal y gynhadledd nesaf yn Llandudno ar ddechrau Tachwedd 2026, gyda'r bwriad o gylchdroi'r lleoliad rhwng gogledd a de Cymru.<br><br>Nodwyd bod y berthynas rhwng S4C a'r sector wedi cryfhau'n sylweddol dros amser. Er bod y sector yn wynebu heriau ar hyn o bryd, pwysleisiwyd nad yw'r rhain o reidrwydd yn deillio o weithgarwch S4C, gan fod darlledwyr eraill yn comisiynu llai o gynnwys. Mewn gwirionedd, nodwyd bod S4C yn parhau i gomisiynu mwy o gynnwys, yn enwedig mewn ymateb i'r galw cynyddol am gynnwys digidol, tra bo darlledwyr eraill wedi lleihau eu gweithgarwch.<br><br>Mae TAC yn cyfarfod â S4C bob yn ail fis, gan gynnwys cyfarfod a gynhaliwyd yn gynharach yr wythnos hon gyda LLI, EM, MW a SP. Nododd EM fod y cyfarfodydd deufis yn werthfawr iawn, gyda TAC yn fan canolog ar gyfer tynnu sylw at faterion sy'n peri pryder i'r sector.<br><br>Ar gais y cynhyrchwyr, trefnwyd cyfarfod bwrdd crwn ar ddrama yn ddiweddar. Ystyriwyd bod y cyfarfod yn llwyddiannus, a mynegwyd awydd i ddod â chynhyrchwyr o genres penodol ynghyd i drafod y strategaeth gynnwys newydd. Nodwyd bod y dull hwn yn fwy effeithiol na chyfarfodydd sector cyffredinol, a all weithiau fod yn rhy eang eu ffocws, gan olygu nad yw unigolion o reidrwydd yn cael yr atebion penodol sydd eu hangen arnynt.<br><br>Mae'r sector wedi croesawu Strategaeth 2030; fodd bynnag, nodwyd bod angen eglurhad pellach ynghylch ystyr "digidol yn gyntaf" yn ymarferol. Codwyd cwestiynau ynghylch a fydd pob cynnwys, ar ryw adeg, yn cael ei ddarlledu'n llinol, hyd yn oed os caiff ei gyflwyno'n wreiddiol ar blatfform fel YouTube. Holwyd hefyd a oes unrhyw oblygiadau i'r canllawiau cyfleu presennol, ac a yw'r term "digidol yn gyntaf" ei hun bellach yn hen ffasiwn. Awgrymwyd y gallai fod yn gliriach nodi y bydd cynnwys yn cael ei gomisiynu'n benodol ar gyfer llwyfan neu lwyfannau penodol.<br><br>Oherwydd prinder amser ar yr agenda, nid oedd cyfle i drafod adroddiad y TAC ar hyfforddiant, felly penderfynwyd anfon yr adroddiad at yr Aelodau drwy e-bost.<br><br>[gadawodd LlM, SH ac SR y cyfarfod] | |
| 10. | **Adroddiadau gan bwyllgorau'r Bwrdd** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol, ac fe wahoddwyd y cadeiryddion i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion perthnasol nad oeddent eisoes wedi eu crybwyll yn ystod y cyfarfod hwn:<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Risg (19/02/2026)<br>• Bwrdd y Grŵp Masnachol (25/02/2026)<br>• Y Pwyllgor Achosion<br><br>Y Pwyllgor Archwilio a Risg<br><br>Tynnodd SuD sylw'r Bwrdd at brif agweddau'r Pwyllgor, gan nodi'r penderfyniad i ailbenodi TIAA fel archwylwyr mewnol.<br><br>Bwrdd y Grŵp Masnachol<br><br>Derbyniwyd yr MoU gan yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n rhoi cymeradwyaeth i weithgareddau masnachol.<br><br>Y Pwyllgor Achosion<br><br>Rhannodd GP nodyn cyfrinachol ynghylch y telerau ar gyfer setliad gyda LlGW. Trafododd yr Aelodau elfennau cyfathrebu, ac unrhyw ystyriaethau i S4C fel corff cyhoeddus.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd telerau'r setliad yn ffurfiol, yn unol â'r hyn oedd yn y papur.** | |
| 11. | **Effeithiolrwydd y Bwrdd**<br><br>Cyflwynodd GP y papur. Eleni, lluniwyd crynodeb o'r datblygiadau dros y misoedd diwethaf yn hytrach na chynnal yr holiadur arferol.<br><br>Mynegodd yr aelodau eu bod yn fodlon â chynnwys yr adroddiad ac yn cytuno ei fod yn ddigonol ar gyfer eleni. O ran adolygiad effeithiolrwydd y flwyddyn nesaf, cytunwyd y bydd yr Ysgrifennydd yn dod â phapur i'r Bwrdd i drafod sut y dylid cynnal y broses.<br><br>**Penderfyniad: Bod yr Ysgrifennydd yn cyflwyno papur i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2027 er mwyn cael mewnbwn ar sut i werthuso effeithiolrwydd y Bwrdd ymhen blwyddyn.**<br><br>[gadawodd CR y cyfarfod] | |
| 12. | **Adroddiadau i'w cymeradwyo / nodi heb angen trafodaeth**<br><br>Rhannwyd yr adroddiadau canlynol gydag aelodau'r Bwrdd, gyda chais bod yr aelodau'n hysbysu'r Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd o flaen llaw os oeddent yn dymuno trafod unrhyw un ohonynt mewn manylder. Os na dderbyniwyd cais o'r fath, cymeradwywyd unrhyw weithredu arfaethedig yn unol â'r argymhelliad yn yr adroddiad ei hun.<br><br>Adroddiad yr Uwch Dîm Arwain<br><br>Nodwyd yr adroddiad. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cymeradwyo Cynllun Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2026–27 | |
| | **Penderfyniad: Cymeradwywyd y cynllun, ar y ddealltwriaeth y bydd trafodaethau pellach gyda'r BBC i gytuno ar werth ariannol cywir yr elfennau unigol.** | |
| | Strwythur a phrif negeseuon Adroddiad Blynyddol 2025–26 | |
| | Nodwyd strwythur a phrif negeseuon Adroddiad Blynyddol 2025–26. | |
| | Adroddiad ariannol chwarterol y Grŵp Masnachol (Ch 3) | |
| | Nodwyd yr adroddiad. | |
| | Trefniadau cymeradwyo buddsoddiadau S4C Masnachol | |
| | Nodwyd y trefniadau newydd ar gyfer cymeradwyo buddsoddiadau S4C Masnachol. | |
| | Adolygu cylchoedd gorchwyl y Pwyllgorau | |
| | **Penderfyniad: Cymeradwywyd y diwygiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg, gydag unrhyw fân ddiwygiadau priodol eraill yn sgil yr adborth a dderbyniwyd gan yr aelodau.** | |
| | Aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio a Risg | |
| | **Penderfyniad: Cymeradwywyd penodiad Denise Lewis Poulton fel aelod anweithredol o'r Pwyllgor.** | |
| | Cofnodion y cyfarfod blaenorol | |
| | **Penderfyniad: I gymeradwyo cofnodion cyfarfod 482, a gynhaliwyd ar 15/01/2026.** | |
| | Pwyntiau Gweithredu | |
| | Nodwyd y Pwyntiau Gweithredu. | |
| | Rhaglen Waith | |
| | Nodwyd y rhaglen waith. | |